



Cael Trwydded Deledu

Pam mae arnoch angen Trwydded Deledu?

Mae arnoch angen Trwydded Deledu i:

- wylïo neu recordio rhaglenni teledu byw ar unrhyw sianel, neu
- lawrlwytho neu wylïo rhaglenni'r BBC ar iPlayer.

Gallai hyn fod ar unrhyw ddyfais, gan gynnwys teledu, cyfrifiadur bwrdd gwaith, gliniadur, ffôn symudol, tabled, consol gemau, bocs digidol neu beiriant recordio DVD/VHS.

Os byddwch yn gwneud unrhyw un o'r uchod heb drwydded ddilys, rydych yn mentro cael eich erlyn a dirwy o hyd at £1,000, ynghyd ag unrhyw gostau cyfreithiol a/neu iawndal y gallech gael eich gorchymyn i'w talu. Bydd angen i chi brynu Trwydded Deledu o hyd os oes arnoch angen trwydded.

I gael gwybod mwy, ewch i tvlicensing.co.uk/info

Faint mae Trwydded Deledu yn ei gostio?

Teledu lliw

£157.50

Teledu du a gwyn

£53.00

Allech chi gael consesiwn?

A ydych chi, neu a oes rhywun rydych yn byw gyda nhw:

- Yn 75 mlwydd oed neu drosodd, ac yn derbyn Credyd Pensiwn?** Gallwch wneud cais am Drwydded Deledu am ddim. Bydd angen i chi fod yn derbyn Credyd Pensiwn yn eich enw chi, neu gall hyn fod yn enw eich partner os ydych yn gwpl ac yn byw yn yr un cyfeiriad.
Yn 74 mlwydd oed ac yn derbyn Credyd Pensiwn? Gallwch wneud cais am Drwydded Deledu am ddim nawr, ynghyd â thrwydded tymor byr i'ch trwyddedu hyd at eich pen-blwydd yn 75.
- Yn ddall (â nam difrifol ar eich golwg)?** Gallech fod yn yn gymwys i wneud cais am gonsesiwn o 50%. Gallwch gwblhau ac argraffu ffurflen gais ar lein yn tvlicensing.co.uk/blind a'i hanfon atom ynghyd â chopi o'ch dogfen cofrestru'n ddall neu dystysgrif gan eich offthalmolegydd. Bydd arnoch angen rhif eich trwydded hefyd, rhif ffôn a thaliad trwy siec. Postiwch y siec at TV Licensing, Blind Concession Group, Darlington DL98 1TL.

I gael gwybod mwy am gonsesiynau, ewch i tvlicensing.co.uk/concessions neu ffoniwch **0300 790 6042**.

Sut i brynu Trwydded Deledu.

Mae yna lawer o wahanol ffyrdd o dalu – dewiswch yr un sydd fwyaf addas i chi:



PayPoint – gallwch dalu am Drwydded Deledu gydag arian parod neu gerdyn debyd. I ddod o hyd i'ch safle agosaf, ewch i [paypoint.com/locator](https://www.paypoint.com/locator)



Debyd Uniongyrchol – rhannwch y gost trwy dalu bob mis, bob chwarter neu bob blwyddyn.

- **Bob mis:** byddwch yn talu am eich trwydded gyntaf o fewn chwe mis. O hynny ymlaen, byddwch yn rhannu'r gost mewn 12 taliad misol – chwech cyn i'ch trwydded ddod yn ddyledus a chwech ar ôl hynny.
- **Bob chwarter:** byddwch yn talu pedwar rhandaliad cyfartal, unwaith bob tri mis. Gan eich bod yn talu am y rhan fwyaf o'ch trwydded ar ôl iddi gael ei hanfon, mae yna dâl chwarterol o £1.25.
- **Bob blwyddyn:** byddwch yn talu'r ffi lawn ar unwaith pan fydd eich trwydded yn cael ei hanfon.

Cewch wybod mwy yn [tvlicensing.co.uk/payinfo](https://www.tvlicensing.co.uk/payinfo) neu ffoniwch 0300 790 6042.



Cerdyn talu Trwyddedu Teledu – gallwch dalu am eich Trwydded Deledu bob wythnos gyda thaliadau o £6.00. Ffoniwch **0300 555 0288**.



Cerdyn credyd/debyd – gallwch wneud taliad unigol gyda cherdyn debyd neu gredyd, gan gynnwys Maestro, Delta, Visa, Visa Electron neu MasterCard. Talwch ar lein yn [tvlicensing.co.uk/payinfo](https://www.tvlicensing.co.uk/payinfo) neu ffoniwch **0300 790 6042**.



Trwy'r post – anfonwch sic eic am ffi lawn y Drwydded Deledu yn daladwy i 'Trwyddedu Teledu', gan ysgrifennu eich enw, cyfeiriad a chôd post yn glir ar gefn y sic. Anfonwch y sic at TV Licensing, Darlington DL98 1TL. Peidiwch ag anfon arian parod.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu angen cymorth gyda'r daflen yma, ffoniwch 0300 790 6042.

Angen cymorth?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich Trwydded Deledu, ffoniwch 0300 790 6042.


Os ydych yn cael problemau ariannol neu eisiau cael gair â rhywun arall am y daflen yma, gallwch ofyn i'ch Cyngor ar Bopeth, sefydliad cyngor ariannol neu Swyddog Tai Lleol am gymorth, neu ffoniwch y Llinell Ddyled Genedlaethol ar 0808 808 4000.

Os oes gennych broblemau gyda'ch golwg, mae'r wybodaeth yma ar gael trwy e-bost neu mewn Braille, print bras neu sain trwy ffonio 0300 790 6076.

Os ydych yn fyddar, yn drwm eich clyw neu â nam ar eich llferydd, rydym yn cefnogi Gwasanaeth Testun y Genhedlaeth Nesaf (NGT). I gael mwy o wybodaeth edrychwch ar [tvlicensing.co.uk/accessibility](https://www.tvlicensing.co.uk/accessibility)

Os bydd arnoch angen gwybodaeth mewn unrhyw iaith arall, cysylltwch â ni ar 0300 790 6044.

Eisiau gwneud sylw am ein gwasanaeth? Byddem yn croesawu eich barn. Ysgrifennwch at Customer Services, TV Licensing, Darlington DL98 1TL.

 Rydym yn croesawu eich galwadau, e-byst a llythyrau yn Gymraeg, a byddwn yn ymateb i chi yn Gymraeg. Mae'r amseroedd ymateb yr un fath ar gyfer Cymraeg a Saesneg. Ewch i [tvlicensing.co.uk/cymraeg](https://www.tvlicensing.co.uk/cymraeg)

Sut i gysylltu â ni



0300 790 6042



[tvlicensing.co.uk/info](https://www.tvlicensing.co.uk/info)



TV Licensing
Darlington
DL98 1TL



@TVLicensing